Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
| Lleoliad: | OPCC Conf. Room |
| Dyddiad: | 23 Mehefin 2017 |
| Amser: | 10:30 – 12:15 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau**: | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol**: | Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>PC Stuart Davies, Swyddog Staff Dros Dro (PC SD)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau**: | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 05/06/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2170** | **CHTh i e-bostio Sarah Wyddal ym Mhrifysgol Aberystwyth i ddiweddaru ynghylch cynrychiolydd yr Heddlu ar y Panel Ymgynghorol Ymchwilio i Gam-drin Pobl Oedrannus.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2171** | **PG i siarad ag Angela Williams mewn perthynas â gwaith paratoadol o ran prentisiaethau.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2172** | **AE i roi copi o'r Strwythurau Llywodraethu i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2173** | **Y PG a'r CHTh i ymgysylltu â Phlismona Bro er mwyn archwilio i swyddogaethau'r rôl Dinasyddion Mewn Plismona.** | **Parhaus** |
| **PB 2174** | **CM i gwrdd â Phennaeth yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn trafod Cytundeb Lefel Gwasanaeth.** | **Parhaus** |
| **PB 2175** | **SR i holi ynghylch canlyniadau'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan Hywel Dda o gwmpas y gwasanaeth Iechyd Meddwl.** | **Parhaus** |
| **PB 2176** | **Y CHTh i ymateb i ymgynghoriad CCHTh yn unol â thrafodaethau.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2177** | **Y DBG i ymgysylltu â DBG Cymru Gyfan er mwyn archwilio i opsiynau mewn perthynas â darpariaeth Galluoedd Arbenigol.** | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 23/06/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 37** | **Estyn cytundeb yr Archwilwyr Mewnol presennol** | **PSA** |

| | | |
|---|---|---|
| | **flwyddyn arall yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb cyfredol.** | |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 5 Mehefin a materion yn codi**

Nododd y CHTh a SR tri mater o gywirdeb a oedd i'w cywiro cyn cyhoeddi.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

PB 2162: Dywedodd y CHTh y byddai'n codi'r mater o arbedion TGCh yr heddlu yn y cyfarfod TGCh nesaf - Cyfredol

PB 2163: Dywedodd y CHTh bod y cam gweithredu hwn yn cael ei gwblhau gan y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol – Cwblhawyd

PB 2166: Dywedodd y PG bod yr achos busnes yn mynd rhagddo. Holodd y CHTh pa un ai a oedd dyddiad wedi'i benderfynu a dywedodd y PG y byddai adroddiad llawn yn cael ei gwblhau mewn llai na 6 wythnos ac y byddai'r manylion yn cael eu rhoi i'r CHTh.

PB 2167: Roedd y CHTh wedi derbyn diweddariad ar yr ymateb i'r ohebiaeth gan Heddlu Swydd Hampshire.

PB 2169: Bydd y Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter yn cynnal adolygiad o'r rotas newydd a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Plismona ym mis Medi.

PB 2171: Dywedodd y PG bod y CHTh a CM wedi derbyn gwybodaeth am y mater hwn yn ystod yr wythnos yn cychwyn 19 Mehefin. Dywedodd CM bod JW ac EH wedi mynychu cyfarfod yn Ne Cymru ac wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r weledigaeth sydd gan HDP ar gyfer prentisiaethau. Mae dwy elfen sydd angen eu symud ymlaen; prentisiaethau o fewn cyd-destun swyddog heddlu a phrentisiaethau ar gyfer rolau staff heddlu. Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â'r angen i sefydlu'r elfennau hyn er mwyn bodloni anghenion DP a'r cyfleoedd a gynigir gan ddarparwyr addysg uwch lleol.

PB 2177: Roedd y DBG wedi cwrdd â Bob Evans, DBG Cymru Gyfan, a fydd yn eistedd ar gyfarfodydd cenedlaethol mewn perthynas â galluoedd arbenigol.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Rhoddodd y PG ddiweddariad ar achos ymosodiad cam-drin domestig o fis Mawrth 2017. Dedfrydwyd y diffynnydd i 6 blynedd o garchar. Hysbysodd y PG y Bwrdd bod dynes wedi ymosod ar ddau swyddog heddlu â chyllyll yng Nghaerfyrddin. Roedd y ddynes wedi'i

chadw yn y ddalfa a gwnaed cyfeiriadau Rheoli Risg Trawma (TRiM) ar gyfer y swyddogion. Rhoddodd y PG wybod i'r Bwrdd am sawl achos lle mae camerâu fideo a wisgir ar y corff wedi'u defnyddio mewn achosion troseddol gyda chanlyniadau cadarnhaol. Diweddarodd y PG y Bwrdd mewn perthynas ag Ymgyrch Ulysses a'r symiau sylweddol o gyffuriau sydd wedi'u hatafaelu ynghyd ag eitemau eraill. Rhoddodd y CHTh adborth i'r PG gan ddau Gyngor Cymuned sy'n dweud bod awydd am wybodaeth ymysg arweinwyr cymunedol mewn perthynas â chamau gweithredu gan yr heddlu yn lleol. Hysbysodd y PG y Bwrdd am sawl stori blismona dda, gan gynnwys atafaelu cyffuriau dosbarth A, a dywedodd ei fod yn fodlon iawn â'r lefel rhagweithgarwch ar sail ddyddiol o fewn yr ardal heddlu. Dywedodd y PG fod yr Heddlu a Gwylwyr y Glannau wedi'u galw i ddigwyddiad yn Aberystwyth a arweiniodd at aelod o'r cyhoedd yn cael ei achub o'r dŵr. Cyfeiriodd y PG at y digwyddiad yng Nghastellmartin a holodd y CHTh pa un ai a oedd cyfrifoldeb ar gyfer ymchwilio'n gorwedd yn yr achos penodol hwnnw. Cadarnhawyd bod y mater yn un a oedd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.

<u>Diweddariad sefydliadol</u>

Dywedodd y PG bod 3 aelod staff wedi'u gwahardd o'r gwaith ar hyn o bryd a chynghorodd bod triniwr cŵn HDP wedi'i ail-bennu i'w swydd. Dywedodd y PG bod canfyddiadau adolygiad y Prif Swyddogion yn derbyn sylw. Dywedodd y PG ei fod wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â'r Ysgrifennydd Gwladol wythnos nesaf ac y byddai'n ymgysylltu â'r CHTh cyn gwneud hynny. Hysbysodd y PG y Bwrdd bod ei sioe deithiol ef a'r DBG wedi parhau yn Aberystwyth ac Aberhonddu a bod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Cenedlaethol</u>

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd bod ganddo gyfarfod â'r Coleg Plismona wythnos nesaf. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Fformiwla Ariannu a'r pwysau sy'n wynebu cyllid yr heddlu. Nid yw'r penderfyniad mewn perthynas â'r cynnydd o ran yr adolygiad o'r fformiwla ariannu'n hysbys eto.

<u>Lleol</u>

Cynghorodd y CHTh bod Rheolwr Ymgysylltu Cyhoeddus SCHTh wedi bod i ddigwyddiadau perfformiad ledled yr ardal heddlu gyda Phennaeth yr ASP er mwyn i swyddogion gymryd rhan yng ngwaith y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a sicrhau alinio'r ethos adfer gwasanaeth. Hefyd, cyfeiriodd y CHTh at ddigwyddiad y Swyddfa Gartref ar Ddiwygio Cwynion yr Heddlu ar 2/6/2017 lle'r oedd ef, Pennaeth yr ASP a Rheolwr Ymgysylltu Cyhoeddus SCHTh yn bresennol. Roedd y digwyddiad yn addysgiadol a rhoddodd gyfle i ystyried oblygiadau diwygio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r gwaith sydd angen cyflawni er mwyn sicrhau bod prosesau'n addas i'r diben cyn gweithredu'r diwygiad.

Diweddarodd y CHTh ynghylch y cyfarfod Ystadau a gynhaliwyd wythnos diwethaf gyda nifer o uwch swyddogion. Mae angen penderfyniadau arwyddocaol mewn perthynas â nifer o safleoedd HDP. Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu yn y fforwm hwnnw a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar 4/7/2017 er mwyn i benderfyniadau pellach gael eu gwneud.

**Cam gweithredu: Ffocws ar Ystadau yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 4/7/2017.**

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r ffaith na fydd presenoldeb Cymorth i Ddioddefwyr yn SCHTh ar ôl mis Gorffennaf 2017.

Dywedodd y CHTh y byddai'n mynychu cyfarfod Cyngor Tref Machynlleth wythnos nesaf.

**5. Materion i'w Hystyried**

**a. Archwiliad Mewnol**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag estyn cytundeb cyfredol y darparwr Archwilio Mewnol cyfredol. Dywedodd y PSA bod aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n cefnogi estyn y cytundeb, yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith bod y 3 heddlu arall yng Nghymru wedi defnyddio'r darparwr gwasanaeth a'r cyfle yr oedd hyn yn cynnig i gyflawni archwiliadau mewnol ar y cyd neu archwiliadau thema ledled Cymru. Roedd y PG a'r CHTh yn cefnogi'r cynnig.

**Penderfyniad: Estyn cytundeb yr Archwilwyr Mewnol presennol flwyddyn arall yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb cyfredol.**

**b. Rhwydwaith Cenedlaethol Troseddau Gwledig**

Dywedodd y CHTh bod y Rhwydwaith Cenedlaethol Troseddau Gwledig wedi gofyn am ddata gan HDP mewn perthynas â phrofi DNA.

**c. Strwythurau Llywodraethu**

Cynigiodd CM bod y mater yn cael ei ohirio yng ngoleuni adborth diweddar a dderbyniwyd gan gydweithwyr o'r Heddlu.

Dywedodd y PG ei fod wedi cynnal Bwrdd Gweithredol yr Heddlu yn ddiweddar gydag ychydig o adborth, fodd bynnag, hysbysodd CM y Bwrdd y gallai fod yn werth cynnig i'r unigolion gwrdd fel grŵp ffocws er mwyn deall beth yw'r pryderon. Cytunodd y PG i'r syniad hwn.

**Cam gweithredu: Cynnal grŵp ffocws er mwyn helpu i ddarparu cyfle i uwch swyddogion a staff i roi adborth ar Strwythurau Llywodraethu.**

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

**a. Cais am Dystiolaeth**

Dywedodd y CHTh bod gohebiaeth wedi'i anfon at HDP yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth ar gyfer darparu adnoddau heddlu ac ystyriodd y Bwrdd yr ymateb i'r cais. Dywedodd AE ei fod ef a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi drafftio'r ddogfen a'i bod gyda'r DBG ar hyn o bryd i'w hanfon i Heddlu De Cymru erbyn diwedd y dydd. Awgrymodd y PSA y dylid gofyn am gopi o'r ddogfen a ddrafftiwyd gan HDC cyn ei bod yn cael ei gorffen a'i chyflwyno. Cytunodd y PG a'r CHTh y dylai dogfen HDP fod yn ymateb ar y cyd rhwng HDP a SCHTh.

**Cam gweithredu: Rhannu copi o ddogfen Cymru Gyfan â SCHTh cyn ei chyflwyno.**

**b. Cynllun hyfforddi wedi'i gostio**

Dywedodd y PG mai hwn yw'r cynllun a gyflwynwyd iddo mewn Bwrdd Gweithredol yr Heddlu a'i fod yn fodlon â'r ffordd y mae'n amlwg yn gysylltiedig â'r Cynllun Trosglwyddo. Holodd y PSA beth oedd maint y cynllun ar gyfer y broses Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad a dywedodd y PG bod y rhan fwyaf o'r cyrsiau ar gael drwy'r broses Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad. Hysbysodd y PG y Bwrdd bod y cynllun hyfforddi wedi'i gostio'n gysylltiedig â'r cynllun gweithlu o ran ymwybyddiaeth o'r nifer o swyddogion sy'n ymddeol ac ati.

Hysbysodd CM y Bwrdd bod SCHTh wedi derbyn trwydded y Coleg Plismona er mwyn i'r CHTh ei harwyddo. Roedd wedi'i hystyried gan y tîm cyfreithiol ac ni chodwyd unrhyw faterion o bryder. Tynnodd CM sylw'r Bwrdd at y ffaith bod y Coleg Plismona'n gofyn iddynt ddefnyddio deunydd hawlfraint a gynhyrchwyd gan yr Heddlu ar gyfer eu defnydd eu hun e.e. er mwyn hysbysebu swyddi gwag.

Dywedodd y CHTh ei fod yn poeni am swyddi gwag tymor byr a thymor canolig a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa, gan gynnwys cynyddu'r mewnlif o drosglwyddedigion a chyflwyno carfan newydd o recriwtiaid.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/06/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2178** | **Ffocws ar Ystadau yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 4/7/2017.** | **MH** |
| **PB 2179** | **Cynnal grŵp ffocws er mwyn helpu i ddarparu cyfle i uwch swyddogion a staff i roi adborth ar Strwythurau Llywodraethu.** | **PG** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2180** | **Rhannu copi o ddogfen Cymru Gyfan â SCHTh cyn ei chyflwyno.** | **AE** |